

# RHYBUDD LLEOL I FORWYR LOCAL NOTICE TO MARINERS

**23-10-2020**

## **Rheoli / Managing COVID-19**

Mae'r Rhybudd Lleol i Forwyr hwn yn disodli Rhybuddion Lleol i Forwyr blaenorol a gyhoeddwyd yn benodol ar gyfer rheoli Covid-19 oddi fewn awdurdodaeth harbyrau Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Pwllheli.

Yn unol â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafirws) (Cymru) 2020, fel ei diwygiwyd, mae Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Harbwr Cymwys ar gyfer harbwr Porthmadog, a'r Awdurdod Harbwr Statudol ar gyfer harbyrau Pwllheli, Abermaw ac Aberdyfi trwy hyn yn rhoi rhybudd bod cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru yn dod i rym am 18.00 ar y 23ain Hydref 2020 ac yn parhau hyd at y 9fed Tachwedd 2020.

Am 18.00 ddydd Gwener 23 Hydref 2020 bydd Hafan Pwllheli yn cau i ddefnyddwyr cychod pleser yn unol a cyfarwyddwyd gan Lywodraeth Cymru.

<https://llyw.cymru/cyfnod-atal-y-coronafeirws-cwestiynau-cyffredin>

<https://gov.wales/coronavirus-firebreak-frequently-asked-questions>

Er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru mae'n ofynnol bod Deiliaid Angorfa a deiliaid angorion harbyrau eraill yn sicrhau cydymffurfiaid â'r rheoliadau. Yn unol a'r cyfarwyddyd bydd marina Hafan Pwllheli ar gau i ddefnyddwyr cychod pleser am 18.00 ar 23 Hydref 2020 hyd at y 9fed Tachwedd 2020.

Yn ystod y cyfnod cloi 'Cyfnod Atal Byr' bydd y marina a'r holl harbyrau yn parhau i fod yn gwbl weithredol.

Mae perchnogion cychod masnachol, contractwyr, syrfewyr a chwmnïau wedi'u hawdurdodi yn gallu parhau â'u gweithgareddau fel arfer ar yr amod bod gweithgaredd o'r fath yn cydymffurfio â rheoliadau Llywodraeth Cymru.

Mae'r staff ar y safle ym hob harbwr yn unol a threfniadau arferol. Bydd staff yn parhau ar y safle 22/7 yn Hafan Pwllheli.

Os oes gan Ddeiliad Angorfa unrhyw bryderon ac angen i gwch gael ei archwilio am reswm diogelwch, cysylltwch â swyddfa'r marina yn uniongyrchol.

Bydd staff yn parhau i archwilio pob cwch yn Hafan Pwllheli yn ddyddiol trwy gydol y cyfnod hwn.

Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Lleol i Forwyr er diogelwch a lles trigolion lleol, staff, defnyddwyr marina a defnyddwyr harbwr; hefyd er lleihau'r gofyniad posibl am gymorth gan y gwasanaethau brys fel yr RNLI a gwirfoddolwyr Gwylwyr y Glannau; i leihau lledaeniad y firws Covid-19 yn ein cymuned ac i achub bywydau.

Bydd yr Awdurdod Harbwr yn gwneud gwaith cynllunio pellach i sicrhau bod ei swyddogaethau a'i drefniadau rheoli harbwr yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Rheoliadau Covid-19 perthnasol ac yn unol â'r Cod Diogelwch Morol Porthladd cyhoeddedig.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Uned Forwrol neu eich Harbwr Feistr lleol.

**Bydd yr Hysbysiad hwn i Forwyr yn cael ei ddiweddarau ymhellach ar y 6ed Tachwedd 2020 neu yn gynharach pe bydd amgylchiadau yn newid**

*Barry Davies*

Swyddog Morwrol / Maritime Officer  
Cyngor Gwynedd  
Pwllheli  
LL53 5AA  
01758 704066 / 07831 212264